Rhagfyr 2023

**Apêl Cronfa Cyfle i Bawb yr Urdd**

Annwyl Syr / Madam,

Ers y 1930au mae miloedd o blant Cymru wedi cael budd o fynychu Gwersylloedd Haf yr Urdd, ac mae'n bosib iawn eich bod chi yn un o'r rheiny.

Yn anffodus, nid pob plentyn sy'n cael y profiad o wyliau haf gyda bron un plentyn ym mhob tri yn byw mewn tlodi yng Nghymru. Mae'r Urdd yn fudiad i bawb, ac rydym am sicrhau fod yna gyfle i gymaint â phosib o blant i greu atgofion yng Ngwersyll Haf yr Urdd, beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau ariannol.

Rydym yn falch iawn o ail-lansio apêl uchelgeisiol **Cronfa Cyfle i Bawb** er mwyn cynnig gwyliau haf i 250 o blant a phobl ifanc fwyaf difreintiedig Cymru yn 2024.

**I gyflawni hyn, rydym angen eich help chi ac yn chwilio am gynghorau tref a chymuned i gyfrannu at y gronfa.**

Byddai cyfraniad o £180 yn talu am wyliau o hyd at 5 diwrnod yn llawn gweithgareddau, yn ogystal â thrafnidiaeth, bwyd a llety yn un o Wersylloedd yr Urdd. Mae croeso i chi hefyd ddatgan eich dymuniad i noddi lle neu lefydd i blant a phobl ifanc sy'n lleol i chi yn ystod y broses noddi.

I gyfrannu at y cynllun, mae modd prosesu taliadau ar-lein drwy ymweld â urdd.cymru/cronfa naill ai fel taliad cyflawn, neu fel cyfres o randaliadau neu mae croeso i chi yrru siec at: Cronfa Cyfle i Bawb, Gwersyll yr Urdd Llangrannog, Llangrannog, SA44 6AE.

Os hoffech sgwrs ynglŷn â'r Gronfa mae croeso i chi gysylltu â ni ar 01239 652 140 neu drwy e-bostio cronfa@urdd.org

Diolch o galon am eich amser ac am unrhyw gyfraniad y gallwch chi ei roi i'r gronfa.

Yn gywir,

Siân

Siân Lewis, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru

December 2023

**The Urdd's Fund for All appeal**

Dear Sir / Madam,

Since the 1930s thousands of youngsters in Wales have benefited from one of the Urdd's iconic summer camps – and you might be one of them.

Unfortunately, not all children experience a summer holiday with figures showing that almost one in three children in Wales live in poverty. The Urdd is an organisation for all, and we want to ensure that there are opportunities for all children to create memories at one of our Summer Camps, whatever their circumstances or financial background.

We're proud to be re-launching our **Fund for All appeal** this year to offer 250 children and young people living in poverty in Wales an unforgettable summer holiday in 2024.

**To achieve this target, we need your help and are appealing to generous community and town councils to contribute to the fund.**

A donation of £180 would cover transport, accommodation, all activities and full board for up to five days at one of our Residential Centres. You would be welcome to request sponsoring a place or places for children in your area by noting your area with your donation.

If you would like to contribute, please visit our website urdd.cymru/fund where payment can be taken in full or in instalments. Or you're welcome to send a cheque to: Fund for All, Gwersyll yr Urdd Llangrannog, Llangrannog, SA44 6AE.

For a discussion regarding the Fund or any developments, please feel free to contact us on 01239 652 140 or by e-mail cronfa@urdd.org

Thank you for your time and for any contribution you can make towards the fund.

Yours sincerely,



Siân Lewis

Chief Executive of Urdd Gobaith Cymru